# Gwybodaeth i rhieni
# 2024 / 2025

Cyngor Gwynedd
Rhif ffôn: 01766 771000
Gwefan: www.gwynedd.llyw.cymru

Mae Pencadlys Yr Adran Addysg yn:
Yr Adran Addysg, Swyddfeydd y Cyngor,
Caernarfon LL55 1SH

**Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn unrhyw iaith neu ddiwyg arall, e.e. print bras neu Braille, cysylltwch â'r Adran Addysg.**

Cyhoeddwyd 1 Medi 2023

## CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Rhagarweiniad | 1 |
| 2. | Mynediad i'r Ysgol | 2 |
| 3. | Anghenion Dysgu Ychwanegol | 6 |
| 4. | Polisi Iaith | 7 |
| 5. | Cludiant Ysgol | 8 |
| 6. | Cymorth i Ddisgyblion | 10 |
| 7. | Gwybodaeth Bellach | 11 |
| 8. | Gwyliau Ysgol | 12 |
| | Atodiad - Rhestr o Ysgolion | 13 |

# 1. RHAGARWEINIAD

Cafodd y llyfryn hwn ei baratoi i roi manylion i rieni ynghylch trefniadau mynediad i ysgolion yng Ngwynedd, rhai ffeithiau ynghylch yr ysgolion a gwybodaeth ynghylch materion eraill o ddiddordeb i rieni. Bydd o gymorth i rieni plant sy'n dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf, rhieni plant sy'n symud i fyw i'r ardal a rhieni sy'n ystyried newid ysgol ar gyfer eu plant. Mae pob ysgol hefyd yn cynhyrchu prosbectws ysgol ac y mae copïau ohonynt ar gael o'r ysgolion.

Amcanion cyffredinol system addysg Gwynedd yw darparu addysg o'r ansawdd uchaf posibl i bob disgybl, yn unol â'u hoedran, gallu a diddordeb/tueddfryd, fel eu bod yn datblygu i fod yn unigolion cyflawn, datblygu a defnyddio eu holl ddoniau, ac yn eu paratoi eu hunain i fod yn aelodau cyfrifol o gymuned ddwyieithog.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu addysg o'r ansawdd uchaf ar gyfer plant Gwynedd mewn partneriaeth ag ysgolion, llywodraethwyr a rhieni. Mae pob ysgol yn gwerthfawrogi cefnogaeth rhieni a'n gobaith yw y manteisiwch ar y cyfle hwn i gael gwybodaeth am eich ysgol leol a pharhau i ymwneud â'r ysgol tra bo eich plentyn yn ddisgybl yno.

Fel llawer o awdurdodau eraill, ar hyn o bryd mae gan Gwynedd strategaeth i ad-drefnu ysgolion y Sir. Ar adeg argraffu'r llyfryn hwn (Medi 2023), mae'r Cyngor wrth fynd trwy'r gwahanol gamau, yn ymgynghori ar sawl cynnig. Ceir gwybodaeth bellach ynglŷn â'r cynigion hyn ar **www.gwynedd.llyw.cymru/ysgolion**.

Dymunwn bob llwyddiant i chi a'ch plentyn yn y dyfodol.

## 2. Mynediad i'r Ysgol

### Pryd all fy mhlentyn ddechrau addysg meithrin?

**Addysg Feithrin Cyn Ysgol Rhan Amser**

Mae'r Awdurdod yn cynnig 10 awr yr wythnos o Addysg Feithrin ddi-dâl i blant yn y tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd am weddill y flwyddyn Ysgol. Cynigir y lleoedd gan bartneriaid yn y sectorau gwirfoddol ac annibynnol sydd wedi cofrestru gyda'r Uned Blynyddoedd Cynnar. Gellir cael rhestr o ddarparwyr trwy gysylltu ar Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar **01248 352436**.

**Cynnig Gofal Plant Cymru**

Gall rhieni cymwys sy'n gweithio ac sydd â phlant 3 neu 4 oed dderbyn hyd at 30 awr yr wythnos o addysg feithrin a gofal plant wedi'u hariannu gan y Llywodraeth, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Uned Gofal Plant Gwynedd ar **01248 352436**.

**Dosbarth Meithrin Ysgol Rhan Amser**

Mae'r Awdurdod yn cynnig lle meithrin rhan amser (10 awr yr wythnos) i blant mewn ysgol, yn y mis Medi yn dilyn eu trydydd pen-blwydd, am flwyddyn ysgol lawn. Fel arfer mae gan ysgolion unai sesiwn bore neu sesiwn prynhawn. Mewn ysgolion sydd â sesiwn bore a phrynhawn nid oes hawl cyfreithiol gan rieni i ddewis pa sesiwn gall eu plentyn mynychu. Yn yr ychydig ardaloedd ble nad yw'r Awdurdod yn darparu ar gyfer addysg plant yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed mewn dosbarth meithrin mewn ysgol, cynigir darpariaeth trwy gyllido lleoedd a ddarperir gan y grwpiau gwirfoddol h.y. Mudiad Ysgolion Meithrin a Grwpiau chwarae Cyn-Ysgol.

Disgwylir bod eich plentyn yn gallu ddefnyddio'r toiled cyn cychwyn yn yr ysgol, oni bai bod gan eich plentyn gyflwr meddygol neu anghenion dysgu ychwanegol.

Am gymorth gyda thoiledu, cliciwch y ddolen yma:
**https://eric.org.uk/wp-content/uploads/2022/08/thinking-about-age2-welsh-web.pdf**

Dylid nodi o dan reolau Llywodraeth Cymru nad yw penderfyniad i roi mynediad i blentyn i ddosbarth meithrin yn sicrhau neu wella'r tebygolrwydd o dderbyn lle yn nosbarth derbyn yr ysgol honno. Mae rhaid gwneud cais ar wahân.

**Dosbarth Derbyn Llawn Amser**

Mae'r Awdurdod yn cynnig i blant le llawn amser mewn dosbarth derbyn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Ble cynigir lle yn y flwyddyn derbyn, mae gan rieni'r dewis o ohirio mynediad eu plentyn hyd yn nes ymlaen yn yr un flwyddyn ysgol hyd at y tymor yn dilyn pen-blwydd eu plentyn yn bump oed.

Gellir cynnig mynediad ynghynt i ysgol na'r hyn a gynigir o dan y polisi mynediad mewn achosion eithriadol, a gyfeirir am resymau penodol yng nghyd-destun Deddf Plant 1989 trwy'r:-

(i) Gwasanaethau Cymdeithasol neu

(ii) Swyddog Meddygol y Sector Perthnasol

Dylid nodi o dan reolau Llywodraeth Cymru nad yw penderfyniad i roi mynediad i blentyn i ddosbarth meithrin yn sicrhau neu wella'r tebygolrwydd o dderbyn lle yn nosbarth derbyn yr ysgol honno. Mae rhaid gwneud cais ar wahân.

## Sut wyf yn ymgeisio am le mewn Ysgol?

Yr Adran Addysg yw awdurdod caniatáu mynediad yr ysgolion cymuned a'r rhai sydd o dan reolaeth wirfoddol ac mae'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch mynediad. Nid oes gan benaethiaid yr ysgolion hyn unrhyw ran yn y broses fynediad ac ni fyddant yn trafod y lleoedd sydd ar gael. Rhaid cyflwyno'r holl geisiadau am fynediad i'r Awdurdod yn ysgrifenedig, gan ddefnyddio'r ffurflenni a ddarperir (ar gael yn yr ysgolion neu ar **www.gwynedd.llyw.cymru/mynediadysgolion**). Cadarnheir penderfyniadau hefyd yn ysgrifenedig. Ni all yr Awdurdod drafod argaeledd lleoedd dros y ffôn.

Rhoddir ystyriaeth cyfartal i bob dewis. Cewch eich annog i ddatgan mwy nag un dewis. Gallwch ddefnyddio dalen ar wahân i ddatgan mwy na thri. Os oes lle ar gael mewn mwy nag un ysgol, dim ond eich dewis cyntaf a gynigir i chi. Oni all yr Awdurdod gynnig unrhyw un o'ch dewisiadau i chi,caiff unrhyw ddewis newydd a dderbynnir ei drin fel cais hwyr. Efallai na fydd yr Awdurdod yn gallu cynnig lleoedd i rai sy'n anfon ceisiadau yn hwyr os yw'r ysgolion hynny eisoes yn llawn.

Gan fod Corff Llywodraethol ysgolion gwirfoddol dan gymorth yn Awdurdod Mynediad, y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am roi mynediad i'r dwy ysgol wirfoddol dan gymorth yng Ngwynedd.

**Trosglwyddo o Ysgol Babanod i Ysgol Iau**

Mae angen i rieni y mae eu plant ar fin gadael ysgol Babanod ymgeisio am le mewn ysgol arall. Nid oes cyswllt awtomatig rhwng ysgolion Babanod a Iau.

**Pryd y dylwn ymgeisio?**

Yr Amserlen ar gyfer mynediad i bob ysgol yng Ngwynedd yn cynnwys y 3 ysgol dan reolaeth wirfoddol ydi:

| | **Ffurflenni ar gael** | **Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau wedi eu cwblhau** | **Hysbysu rhieni** |
|---|---|---|---|
| Meithrin | **Medi 2023** | 01/2/2024 | 16/04/2024 |
| Derbyn | **Medi 2023** | 01/2/2024 | 16/04/2024 |
| Babanod i Iau | **Medi 2023** | 01/2/2024 | 16/04/2024 |
| Uwchradd | **Medi 2023** | 22/12/2023 | 01/03/2024 |

Mae'n hanfodol bod rhieni'n ymgeisio erbyn y dyddiadau cau gan y cynigir lleoedd i'r rheini sydd wedi ymgeisio ar amser cyn unrhyw geisiadau hwyr, hyd yn oed os yw'r ceisiadau hwyr o'r dalgylch. Fodd bynnag, dan amgylchiadau eithriadol (e.e. salwch), gall yr Awdurdod ystyried ceisiadau hwyr sy'n cyrraedd cyn y gwneir cynigion fel eu bod ar amser. Bydd yr Awdurdod yn ystyried ceisiadau hwyr mor fuan â syn phosib mewn llwythi.

**Sut mae'r Awdurdod yn dyrannu lleoedd?**

Mae'r Awdurdod yn gweithredu polisi dalgylchol ac fel arfer mae disgyblion yn mynychu'r ysgol yn y dalgylch y maent yn byw ynddi a ble bydd yr Awdurdod wedi gwneud darpariaeth o ran gofod, staffio ac adnoddau eraill yn cynnwys cludiant ysgol. Mae gan bob ysgol ddalgylch ddiffiniedig a gellir cael golwg ar fapiau swyddogol yn dangos y ffiniau, yn y Swyddfa Addysg neu yn yr ysgolion unigol.
Bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â dewis rhieni nes cyrraedd rhif mynediad yr ysgol. Mae'r rhif mynediad yn adlewyrchu gallu ysgol i dderbyn plant ar sail arwynebedd llawr yr ysgol a chyfrifir yn defnyddio fformwla Llywodraeth Cymru.

**Beth os ceir mwy o geisiadau nag sydd o leoedd ar gael?**

Ble mae mwy yn ymgeisio nag sydd o leoedd ar gael mewn ysgolion cymuned ac o dan reolaeth Wirfoddol, defnyddir y meini prawf gordanysgrifio isod i flaenoriaethu ceisiadau.

1. Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi bod mewn gofal yn y gorffennol.

2. Bydd yr Awdurdod yn ystyried achosion sy'n cael eu cyfeirio i'r Awdurdod gan y Gwasanaethau Cymdeithasol neu Swyddog Meddygol y Sector perthnasol, ble mae angen rhoi mynediad i blentyn i ysgol oherwydd eu lles meddygol neu gymdeithasol neu ble mae datganiad/Cynllun Datblygu Unigol (CDU) Awdurdod plentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig/anghenion dysgu ychwanegol yn enwi ysgol neilltuol.

3. Disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch ddiffiniedig ysgol. Os ceir mwy o geisiadau o'r fath nag sydd o leoedd ar gael, caiff lleoedd eu blaenoriaethu gan ddefnyddio meini prawf 4-6 isod.

4. Disgyblion sydd ar hyn o bryd ac a fydd â brawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol pan fo'r disgybl i fod i ddechrau yno (gan roi blaenoriaeth i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol).

5. Disgyblion sy'n mynychu ysgol gynradd a gynhelir o fewn dalgylch yr ysgol uwchradd (gan roi blaenoriaeth i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol). Mae'r maen prawf yma yn berthnasol i geisiadau i ysgol uwchradd yn unig.

6. Pellter cyfeiriad y cartref o gyfeiriad yr ysgol.

Os yw'r plentyn yn rhannu ei amser rhwng y ddau riant, cyfeiriad cartref plentyn at ddiben mynediad yw'r cyfeiriad ble mae ef/hi yn treulio'r rhan fwyaf o'r wythnos ysgol. Dylid sicrhau y caiff yr Adran Addysg ei hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau cyfeiriad cyn ac ar ôl y dyddiad cau. Gellir tynnu'n ôl gynnig o le os canfyddir nad yw'r cyfeiriad a roddwyd yn ddilys.

Caiff pob pellter ei fesur yn ôl y pellter cerdded byrraf o ddrws ffrynt yr adeilad sy'n gartref i'r plentyn at fynedfa gydnabyddedig agosaf yr ysgol a chaiff ei fesur gan ddefnyddio systemau mapio digidol yr Awdurdod. Ni wahaniaethir yn erbyn disgyblion o du allan i'r Awdurdod Lleol o'u cymharu â disgyblion o Wynedd wrth ddefnyddio'r meini prawf pellter.

Mae brawd neu chwaer yn cynnwys hanner brawd/chwaer, llys frawd/chwaer, plant sydd wedi cael eu mabwysiadu a phlant maeth yn byw yn yr un teulu.

Mewn unrhyw achosion o efeilliaid neu enedigaethau lluosog eraill ble all yr Awdurdod ond cynnig rhai o'r lleoedd sydd eu hangen, gall y rhieni dderbyn y lleoedd sydd ar gael neu eu cadw ar agor hyd 31 Awst yn y gobaith y gall lleoedd eraill ddod ar gael o blith y rhestr aros.

Gall yr Awdurdod mewn amgylchiadau eithriadol roi mynediad i blant nes bod y nifer sy'n cael mynediad uwchben y rhif mynediad cyhyd nad yw derbyn yn effeithio'r ysgol yn y tymor byr a'r tymor

hir a ddim yn cael effaith anfanteisiol ar ysgolion cyfagos. Mae deddfwriaeth yn cyfyngu maint dosbarthiadau i 30 mewn dosbarthiadau babanod os yw'r rhif mynediad wedi ei gyrraedd.

**Beth sy'n digwydd os gwrthodir lle i fy mhlentyn?**

Oni all awdurdod mynediad (yn cynnwys corff llywodraethol ysgolion dan reolaeth wirfoddol) gynnig lle i blentyn yn ystod cylch arferol mynediad, cedwir eu henw ar restr aros hyd 30 Medi. Os gwrthodir cais tu allan i gylch arferol mynediad mewn ysgolion cymuned ac o dan reolaeth Wirfoddol, caiff enw'r plentyn ei ychwanegu at y rhestr aros hyd ddiwedd y tymor hwnnw. Dylai rhieni ail-ymgeisio yn ystod wythnos gyntaf y tymor canlynol i enw'r disgybl aros ar y rhestr aros am dymor arall.

Caiff lleoedd eu blaenoriaethu yn unol â'r meini prawf uchod ac nid yn ôl y dyddiad y cyflwynwyd cais am le yn wreiddiol. Ni all yr Awdurdod roi arwydd pa mor debygol ydyw y caiff lle ei gynnig oddi ar restr aros.

Gall rhieni hefyd apelio i banel annibynnol yn erbyn y penderfyniad awdurdod mynediad i beidio â rhoi mynediad i'r plentyn o fewn 14 diwrnod. Cynhelir gwrandawiadau apêl o fewn 30 diwrnod ysgol (30 diwrnod gwaith yn ystod gwyliau'r haf) o'r dyddiad cau ar gyfer apeliadau.

Nid oes hawl i apelio yn achos penderfyniad i wrthod lle rhan amser mewn dosbarth meithrin.

**A allaf drosglwyddo fy mhlentyn yn ystod blwyddyn ysgol?**

Dylai rhieni sy'n dymuno trosglwyddo eu plentyn o un ysgol i un arall, wneud cais gan ddefnyddio'r ffurflenni sydd ar gael gan yr ysgolion neu'r Adran Addysg, ond yn unig ar ôl trafodaeth lawn gyda'r ddau bennaeth sydd a wnelont â hyn, yn y lle cyntaf.

Fel rheol, cymer ceisiadau am drosglwyddiad rhwng un a thair wythnos i'w prosesu. Ar ôl rhoi caniatâd, gellir yna drafod yr union ddyddiad dechrau gyda'r ysgol.

Fodd bynnag, caiff rhieni eu cynghori'n gryf i beidio â throsglwyddo disgyblion yn ystod y flwyddyn ysgol er mwyn osgoi tarfu ar eu cyrsiau yn yr ysgol.

**Dymunaf ymgeisio am le mewn ysgol tu allan i Wynedd? Pa gamau y dylwn eu cymryd?**

Dylai rhieni sy'n byw o fewn y Sir sy'n dymuno anfon eu plant i ysgol a gynhelir gan Awdurdod arall, geisio cael mynediad i ysgol o'u dewis trwy ddilyn y weithdrefn fynediad a osodir gan yr Awdurdod hwnnw.

**Beth yw meini prawf gor-danysgrifio yr Ysgolion Gwirfoddol dan Gymorth?**

**Ysgol Ein Harglwyddes ac Ysgol Santes Helen.**

1. Plant wedi eu bedyddio'n Gatholig sydd mewn gofal neu sydd wedi bod mewn gofal yn y gorffennol.
2. Plant sydd wedi eu bedyddio'n Gatholig a sy'n byw yn y plwyfi mae'r ysgol yn eu gwasanaethu. Map o'r plwyf ar gael gan yr ysgol neu ar wefan yr ysgol.
3. Plant eraill sydd mewn gofal neu sydd wedi bod mewn gofal yn y gorffennol.
4. Plant sydd wedi eu bedyddio'n Gatholig sy'n byw tu allan i'r plwyfi mae'r ysgol yn eu gwasanaethu lle mae hon yw'r ysgol Gatholig agosaf.
5. Plant fydd gyda brawd neu chwaer hyn yn yr ysgol.
6. Plant sydd wedi eu bedyddio neu aelod o enwad Cristnogol arall.

7. Plant o ffydd eraill.
8. Unrhyw blentyn arall.

## 3. BETH OS OES GAN FY MHLENTYN ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL?

Mae gan pob ysgol fap darpariaeth sy'n cyfarch camau y disgwylir i ysgol ei gymryd i atal ADY rhag ddatblygu, ac yna yn mapio yn glir y camau a'r strategaethau sydd ar gael gan yr ysgol i gyfarch disgyblion gydag ADY. Mae'n bwysig bod plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hadnabod a'u hasesu yn gynnar yn ystod eu gyrfa ysgol.

Mae gan bob ysgol arian ychwanegol yn ei chyllideb i gynorthwyo i gwrdd ag anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig/anghenion dysgu ychwanegol, ac mae gan bob ysgol Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) a all ddarparu cyngor a chefnogaeth ar gyfer staff a phlant yn yr ysgol. Mae athrawon Arbenigol a seicolegwyr addysg yn cydweithio ag ysgolion i gynorthwyo i gwrdd ag anghenion dysgu ychwanegol plant sydd ar gam yn ymateb graddedig yr ysgol, a elwir yn Gynllun Datblygu Unigol (CDU) Ysgol. Rhyngddynt, mae'r athrawon a'r seicolegwyr yn meddu ar wybodaeth a phrofiad o seicoleg addysgol, anawsterau dysgu penodol a chyffredinol, anawsterau lleferydd, iaith a cyfathrebu, a rheoli ymddygiad. Mae hefyd athrawon arbenigol a staff cefnogol gyda chymwysterau ym meysydd nam gweledol, clyw ac aml-synhwyraidd ar gael i weithio mewn ysgolion.

Ar gyfer y lleiafrif bychan iawn o ddisgyblion ag anghenion addysgol dwys a chymhleth, gellir llunio datganiad o anghenion addysgol arbennig/ Cynllun Datblygu Unigol (CDU) Awdurdod. Mae datganiad o anghenion addysgol arbennig/CDU Awdurdod yn amlinellu anghenion eich plentyn a'r cymorth ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) y dylent ei gael. Efallai y bydd rhai plant a datganiad o anghenion addysgol arbennig/CDU Awdurdod yn cael eu haddysgu yn un o ysgolion arbennig yr Awdurdod.

Pan fo plant sydd ag AAA/ADY yn symud i :
• leoliad cyn ysgol • ysgol gynradd • ysgol uwchradd • addysg bellach / fyd gwaith
• leoliad addysg arbennig
neu symud rhyngddynt ac allan ohonynt

pan yn briodol bydd rhaid cynllunio'r broses pontio i sicrhau proses hwylus sy'n bwysig i bob plentyn a'i ganlyniadau addysgol a chymdeithasol. Gwneir hyn gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ganiatáu'r i'r plentyn, rhiant y plentyn i drafod y broses bontio. Bydd rhai cyfarfodydd sy'n trafod cynllunio pontio yn elwa ar gynnwys partneriaid eraill a all helpu'r plentyn i ddeall sut bydd y broses bontio'n gweithio'n ymarferol a pha gymorth ychwanegol sydd ar gael iddo. Fel rheol, cyfunir proses pontio gydag adolygiad o CDU. Gall hyn arwain at ddiwygio'r DDdY a bennir yn y CDU neu at ddisgrifio lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall. I gyfarch gofynion Deddf ADY, mae'r Awdurdod yn ffafrio prif-lif a'r plentyn yn cael eu haddysgu yn eu hysgol leol, ochr yn ochr â'u cyfoedion; ar gyfer yr ychydig iawn o blant na ellir cwrdd â'u anghenion mewn ysgol prif-lif, bydd yr Awdurdod yn lleoli plentyn. Petai CDU yn ei le, dylai cymorth ychwanegol nad yw'n DDdY i helpu'r broses bontio esmwyth gael ei gofnodi yn y CDU.

Os ydych yn pryderu y gall fod gan eich plentyn anghenion dysgu ychwanegol, siaradwch â'r athro/athrawes dosbarth neu'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY). Gall rieni plant cyn-ysgol siarad â'r arweinydd /rheolwr y lleoliad cyn-ysgol neu'ch Ymwelydd Iechyd. Mae gwefan Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn darparu gwybodaeth i rieni **www.adyach.cymru**. Gallwch hefyd gysylltu â swyddogion anghenion dysgu ychwanegol yr Awdurdod a fydd yn gallu darparu gwybodaeth i rieni plant oed ysgol a phlant cyn-ysgol. Gellir cysylltu â nhw ar 01286 679007.

**Pa gyngor a chefnogaeth sydd ar gael ar gyfer teuluoedd a phobl ifanc?**
Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn cynghori ac yn cefnogi teuluoedd a phobl ifanc mewn perthynas ag ystod eang o ffactorau sy'n effeithio ar allu'r person ifanc i fanteisio'n llawn ar y ddarpariaeth addysgol a gyflwynir.

Oherwydd bod cydweithrediad rhwng yr ysgol, y teulu a'r plentyn yn hanfodol wrth geisio datrys anawsterau'r plentyn, nôd y Gwasanaeth yw meithrin parch a dealltwriaeth cyffredin a sicrhau bod pawb yn cydweithio tuag at gyrraedd nôd cyffredin.

Nodir prif gyfrifoldebau'r Gwasanaeth isod:
Presenoldeb a Phrydlondeb Disgyblion • Amddiffyn plant • Gwaharddiadau • Anghenion Dysgu Ychwanegol • Cyflogaeth plant • Addysg gartref • Materion yn ymwneud â thlodi neu amddifadedd cymdeithasol

Am wybodaeth neu gyngor pellach, cysylltwch â'r Swyddog Gwella Ansawdd Addysg (01286) 679007.

Disgwylir i ysgolion roi sylw penodol a darparu'n briodol ar gyfer disgyblion gydag ystod eang o anghenion ychwanegol nad ydynt o fewn y diffiniad o ADY. Ymysg y grwpiau hyn ceir disgyblion mwy galluog a thalentog, plant sy'n derbyn gofal, gofalwyr ifanc, plant o leiafrifoedd ethnig gyda'r Saesneg neu'r Gymraeg yn iaith ychwanegol, plant mewn angen a phlant â chyflyrau meddygol.

## 4. BETH YW POLISI GWYNEDD O RAN DEFNYDDIO'R GYMRAEG A'R SAESNEG?

**Amcan y Polisi Iaith**

Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu polisi ddwyieithog trwy holl ysgolion Gwynedd.

Y nôd yw sicrhau cydbwysedd o ran dwyieithrwydd ar sail oedran ymhlith holl ddisgyblion y Sir i'w galluogi i fod yn aelodau llawn o'r gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni.

**Addysg Feithrin**

Sicrhau y caiff pob plentyn sail gadarn yn y Gymraeg er mwyn iddynt gyrraedd y nôd o ddwyieithrwydd llawn maes o law.

**Addysg Gynradd**

**Cyfnod Sylfaen**

Adeiladu ar y seiliau a osodwyd yn y Gymraeg gan addysg feithrin, atgyfnerthu a datblygu mamiaith dysgwyr Cymraeg ac, yn achos plant o gartrefi ble siaredir y Gymraeg, ymestyn eu gafael o'r Saesneg.

**Cyfnod Allweddol 2**

Atgyfnerthu a datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn, er mwyn sicrhau y gall y plant siarad, darllen ac ysgrifennu'r ddwy iaith yn rhugl ac yn hyderus pan maent yn symud i'r ysgol uwchradd.

**Addysg Uwchradd**

Sicrhau bod pob disgybl mewn ysgolion uwchradd yn astudio Cymraeg a Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd Blwyddyn 11, a bod pob disgybl sy'n meddu ar y gallu angenrheidiol i wneud hynny, yn

derbyn asesiadau priodol ac yn sefyll arholiadau allanol yn y ddau bwnc ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4.
Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer hwyrddyfodiaid sy'n symud i fyw i Wynedd ac ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol dwys.

Bydd holl ysgolion y Sir yn adlewyrchu ac yn atgyfnerthu'r polisi iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefniadau bugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

## 5. POLISI CLUDIANT ADDYSG GWYNEDD - 2022-23

**Pwy sydd â hawl i dderbyn cludiant ysgol di-dâl?**

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dal i ddysgwyr sy'n byw yn y sir ac sydd wedi cofrestru mewn ysgol sy'n cael ei rhedeg gan y Cyngor o dan yr amgylchiadau canlynol:

**(i) Ysgolion Un Safle:**

- **Dysgwyr sy'n derbyn addysg cynradd -** ar gyfer dysgwyr sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (dim yn cynnwys disgyblion dosbarth meithrin).
- **Dysgwyr sy'n derbyn addysg uwchradd -** ar gyfer dysgwyr o dan 16 oed sy'n byw 3 milltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf.
- **Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau o dan 16 oed** yn unol ag yn unol ag argymhellion y Panel Cymedroli Anghenion Addysgol Ychwanegol.

**(ii) Ysgolion Aml Safle:**

- **Dysgwyr sy'n derbyn addysg cynradd -** ar gyfer dysgwyr sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r safle ysgol agosaf yn eu dalgylch, neu'r safle ysgol agosaf (dim yn cynnwys disgyblion dosbarth meithrin).
  **[Bydd gan bob safle ysgol (mewn ysgol aml safle) ddalgylch penodol.]**
- **Dysgwyr sy'n derbyn addysg uwchradd -** ar gyfer dysgwyr o dan 16 oed sy'n byw 3 milltir neu ymhellach o'r safle ysgol agosaf yn eu dalgylch, neu'r safle ysgol agosaf.
  **[Bydd gan bob safle ysgol (mewn ysgol aml safle) ddalgylch penodol.]**
- **Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau o dan 16 oed** yn unol ag argymhellion y Panel Cymedroli Anghenion Addysgol Ychwanegol.

Mae disgwyl i holl ddysgwyr y sir **sydd dros 16 oed** ac sydd wedi cofrestru ar gwrs ôl-16 lawrlwytho tocyn teithio penodol. Mae'r tocyn ar gael am ddim ac mae ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd **(www.gwynedd.lyw.cymru)**

Disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd neu uwchradd (gan eithrio rhai dysgwyr – gweler uchod), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd.

Er mwyn derbyn cludiant di-dâl, disgwylir i rieni dysgwyr sy'n derbyn addysg cynradd neu uwchradd gwblhau ffurflen gais cludiant di-dâl a'i dychwelyd i **Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd, Adran Rheoleiddio, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH (Mae'n bosib cysylltu drwy ffonio Galw Gwynedd ar 01766 77100) .**

Mae derbyn cludiant di-dâl yn amodol bod y dysgwr yn cydymffurfio a'r cod ymddygiad ar gyfer cludiant ysgol. Mae gan y rhieni/gwarcheidwaid gyfrifoldeb i sicrhau bod y cod ymddygiad yn cael ei ddilyn. Gall methu cydymffurfio arwain at golli'r hawl i gludiant di-dâl o'r cartref i'r ysgol. Os collir yr

hawl i dderbyn cludiant di-dâl, mae gan y rhieni/gwarcheidwaid gyfrifoldeb i drefnu a thalu am gludiant o'r cartref i'r ysgol.
Mae'n ofynnol bod dysgwyr sy'n mynychu ysgol (neu safle ysgol) heblaw'r ysgol (neu safle ysgol) yn y dalgylch neu'r ysgol (neu safle ysgol) agosaf yn gwneud eu trefniadau teithio eu hunain ac yn cwrdd â chost y cludiant hwnnw.

**Cynllun Seddi Gweigion**

Gall dysgwyr sy'n derbyn addysg yng Ngwynedd ac nad oes hawl ganddynt i gludiant di-dâl, fanteisio ar unrhyw seddi gwag yng ngherbydau cludiant y Cyngor. Nid yw'r cynllun seddi gwag ar gael ar gytundebau bysiau gwasanaeth cyhoeddus.

Mae manteisio ar y cynllun yn amodol ar y canlynol:

- Bod seddi gwag ar gael
- Nid oes angen i'r cerbyd wyro oddi ar ei daith arferol
- Dim costau ychwanegol i Gyngor Gwynedd
- Talu'r ffi gyfredol am sedd wag

Nid oes gwarant y bydd seddi gwag ar gael drwy gydol blwyddyn academaidd, os bydd yr hawl yn dod i ben, ceisir rhoi o leiaf wythnos o rybudd. Os bydd hyn yn digwydd, bydd rhaid i'r dysgwr drefnu ei gludiant ei hun i gyrraedd yr ysgol a bydd eich taliad yn cael ei dalgrynnu i'r hanner tymor agosaf. Gall methiant i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad wrth Deithio ddod â'r hawl i sedd wag i ben.

Wrth ddyfarnu seddi gwag o'r newydd neu wrth ddod â defnydd o seddi gwag i ben rhoddir blaenoriaeth i

- Ddisgyblion sydd â Chynllun Datblygu Unigol (Awdurdod)
- Ddisgyblion sy'n byw bellaf o'r ysgol neu safle ysgol

**Sut i wneud cais?**

Gellir gwneud cais ar lein drwy ddilyn y linc canlynol **www.gwynedd.llyw.cymru/seddigwag**.

**Pryd fydd y cais yn cael ei brosesu?**

Os yw'r cais ar gyfer mis Medi, yna asesir y cais erbyn diwedd mis Medi. Bydd angen i chi wneud trefniadau teithio eich hunain hyd nes bydd eich cais wedi ei asesu. Bydd ceisiadau a dderbynnir yn ystod y flwyddyn academaidd (ac eithrio mis Medi) yn cael eu hystyried cyn gynted ag y bod modd. Byddwch yn derbyn ymateb drwy e-bost.

**Beth os nad wyf eisiau parhau efo'r cynllun?**

Gadewch i'r uned gludiant wybod ar unwaith drwy e-bost cludiant@gwynedd.llyw.cymru neu lythyr os nad ydych eisiau parhau efo'r cynllun. Os ydych wedi derbyn tocyn bws bydd angen i chi anfon y tocyn yn nôl i'r Awdurdod. Rydym yn cynghori dychwelyd unrhyw docynnau drwy'r post gyda dosbarthiad arbennig ac angen llofnod er mwyn sicrhau ei fod yn ein cyrraedd. Bydd y ffi seddi gweigion yn dod i ben ar y dyddiad y bydd y tocyn wedi ei dderbyn yn nôl gennym. Os na dderbynnir y tocyn bydd y ffi yn parhau. Os ydych yn talu drwy ddebyd uniongyrchol, peidiwch â'i ganslo, gwneir hyn gan yr Awdurdod.

Gellir anfon llythyr/tocyn i'r cyfeiriad isod:

Uned Gludiant Integredig
Cyngor Gwynedd
Swyddfeydd y Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

**Beth yw'r ffi?**

Bydd y ffi yn disgyn i 2 gategori:

- **Ffi Dalgylch -** dysgwr yn derbyn addysg gynradd ac yn byw llai na 2 filltir i ffwrdd o'r ysgol (neu safle ysgol) y dalgylch, neu yn ddysgwr sy'n derbyn addysg uwchradd sy'n byw llai na 3 milltir i ffwrdd o'r ysgol (neu safle ysgol).

- **Ffi All-dalgylch -** dysgwr sydd yn mynychu ysgol (neu safle ysgol) heblaw ysgol (neu safle ysgol) y dalgylch.

Adolygir y ffi yn flynyddol a bydd y wybodaeth ar gael ar y wefan
**www.gwynedd.llyw.cymru/teithioirysgol**

**Sut i dalu?**

Anfonir anfoneb i'ch sylw i'w dalu, neu gallwch drefnu i dalu drwy ddebyd uniongyrchol.

**Pa gymorth sydd ar gael os yw llwybrau cerdded yn beryglus?**

Pan fo dysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd yn byw llai na 2 filltir i ffwrdd o ysgol (neu safle ysgol) y dalgylch, neu pan fo dysgwyr sy'n derbyn addysg uwchradd yn byw llai na 3 milltir i ffwrdd o ysgol (neu safle ysgol) y dalgylch, ac nad oes ganddynt felly hawl i gludiant di-dâl, ond yn teithio i ysgol ar hyd ffordd mae'r Cyngor yn ei hystyried yn beryglus iawn, darperir cludiant di-dâl. Y diffiniad o ffordd beryglus yw ble mae natur y ffordd (sy'n cynnwys llwybrau troed cyhoeddus) yn golygu nad yw'n rhesymol disgwyl i ddysgwyr (wrth ystyried eu hoedran a gyda hebrwngwr fel bo angen) i gerdded yn gymharol ddiogel. Wrth asesu diogelwch cymharol ffordd, bydd y Cyngor yn asesu'r peryglon y gallai dysgwr eu hwynebu ar hyd y ffordd a bennir (yn cynnwys, e.e. afonydd, ffosydd, cyflymder traffig ar hyd y ffordd gyfagos, damweiniau wedi digwydd yn y gorffennol, coed yn gorhongian neu ganghennau a allai rwystro cerddwyr neu yrwyr rhag gweld, ayb). Rhaid cynnal yr asesiad ar yr amser o'r dydd a dyddiau'r wythnos y gellid disgwyl i ddysgwyr ddefnyddio'r ffordd.

Y llwybr byrraf sydd ar gael yw'r un nad yw'r Cyngor yn ei ystyried yn arbennig o beryglus, ar ôl asesu'r llwybrau eraill y gellid eu defnyddio.

**A oes cymorth ar gael i ddysgwyr sy'n newid cyfeiriad yn ystod cwrs arholiad?**

Bydd y Cyngor yn cyfrannu tuag at gostau teithio dysgwr sydd wedi symud i ddalgylch newydd yn ystod blwyddyn arholiad allanol, neu flwyddyn flaenorol, e.e. cwrs TGAU, ac sy'n dymuno cwblhau'r cwrs yn yr un ysgol (neu safle ysgol) sy'n gwasanaethu eu cyn gartref, trwy un o'r dulliau canlynol:-

- Cynnig cludiant di-dâl pan fo modd trefnu cludiant heb olygu cost ychwanegol i'r Cyngor.
- Cynnig talu swm hyd at uchafswm o'r hyn sy'n gyfwerth ag 20 milltir o deithio dyddiol yn unol â

graddfa gyfredol lwfans cludiant cyhoeddus cenedlaethol llywodraeth leol.

Telir unrhyw daliad ar ddiwedd pob tymor am bob diwrnod y cafodd y dysgwr ei farcio'n bresennol ar gofrestr yr ysgol.

## 6. CYMORTH I DDISGYBLION

**Pa drefniadau a wneir ar gyfer prydau ysgol?**

Mae'r Adran Addysg yn awyddus i gynnal y Gwasanaeth Prydau Ysgol a'i nôd yw darparu pryd canol dydd deniadol, maethlon ac wedi ei brisio'n rhesymol ar gyfer disgyblion. Yn yr ysgolion uwchradd,caiff ei ddarparu gyda chydweithrediad y Cyrff Llywodraethol sy'n gyfrifol am y gwasanaeth arlwyo.Mae'r awr ginio hefyd yn achlysur cymdeithasol ac mae iddo arwyddocâd addysgol. Mae'r bwydlenni a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Prydau Ysgol yn cydymffurfio â'r Mesur " Bwyta'n Iach yn yr Ysgol " Cymru 2009 a'r Rheoliadau " Bwyta'n Iach yn yr Ysgol" ( Safonau a Gofynion Maeth) Cymru 2013, a osodir gan Lywodraeth Cymru.

Mae pryd dau gwrs ar gael mewn ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig am bris a osodwyd. Mewn ysgolion uwchradd, ceir dewis o brydau e.e. pryd dau gwrs, neu fyrbryd, cwrs cyntaf neu bwdin ynunig.

Mae pryd dau gwrs ar gael mewn ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig. Mewn ysgolion uwchradd, ceir dewis o brydau e.e. pryd dau gwrs, neu fyrbryd, cwrs cyntaf neu bwdin yn unig.

Ceir darpariaeth yn yr ysgol ar gyfer disgyblion sy'n dewis dod â'u bwyd eu hunain. Darperir ar eu cyfer gwpanau, platiau a dŵr yfed.

Darperir traean o beint o lefrith yn ddyddiol, yn ddi-dâl:

(i) Ar gyfer disgyblion o dan 5 oed

(ii) Ar gyfer disgyblion rhwng 5 a 7 oed (Menter Llywodraeth Cymru)

(iii) Ar gyfer disgyblion mewn Ysgolion Arbennig

(iv) Ar gyfer unrhyw ddisgybl o oedran cynradd sydd angen llefrith ar sail meddygol pan gyflwynir tystysgrif gan Swyddog Meddygol yr Ysgol.

Mae rhai Ysgolion Cynradd yn gwerthu traean o beint o lefrith i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 am bris gostyngol.

**Pa gymorth sydd ar gael gyda chost prydau a gwisgoedd ysgol?**

Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd ('UPFSM')
Bydd prydau ysgol am ddim yn cael eu cyflwyno i holl blant ysgolion Cymru dros y tair blynedd nesaf. Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan.

**Cymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim ('eFSM')**

Mae prydau ysgol di-dâl ar gael ar gyfer pob plentyn y mae eu rhieni neu eu gwarcheidwaid yn derbyn un o'r budd-daliadau canlynol:-

1. Lwfans Ceisio Gwaith (sail incwm)
2. Cymorthdal Incwm
3. Credyd Pensiwn (Gwarant)
4. Cymorth dan Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1999
5. Credyd Treth Plentyn (ble nad yw incwm trethadwy blynyddol yn uwch na £16,190)

6. Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (sail incwm)
7. Credyd Cynhwysol (Ar yr amod bod gan yr aelwyd incwm a enillir net blynyddol ddim mwy na £7,400)

Nid yw teuluoedd sy'n derbyn Credyd Treth Gwaith yn gymwys er bod incwm trethadwy blynyddol yn is na £16,190.

Os ydych yn derbyn Budd-dal Tai neu Ostyngiad Treth Cyngor gan Gyngor Gwynedd, ni fydd raid i chi gwblhau ffurflen gais am brydau ysgol di-dâl. Byddwn yn asesu eich hawl yn syth. Os nad ydych yn derbyn Budd-dal Tai neu Ostyngiad Treth Cyngor gan Gyngor Gwynedd, a'ch bod yn credu bod gan eich teulu hawl i dderbyn prydau ysgol di-dâl, mae ffurflenni cais ar gael o ysgol eich plentyn neu trwy gysylltu â'r Swyddfa Budd-daliadau (rhif ffôn 01286 682689) .

**Grant Gwisg Ysgol**

Mae'r Awdurdod ar ran Llywodraeth Cymru yn rhedeg cynllun a rydd grant o £125 (disgyblion blwyddyn derbyn, a 1-11) neu £200 (disgyblion blwyddyn 7) tuag at y gost o brynu dillad, esgidiau ac offer ar gyfer disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol di-dâl (ond nid y rhai sy'n cael eu Gwarchod Dros dro) neu sy'n derbyn gofal.

Mae'r broses ymgeisio'r un fath â'r un ar gyfer prydau ysgol di-dâl a ddisgrifir uchod.

## 7. GWYBODAETH BELLACH

**Codi tâl am Weithgareddau Addysgol**

Mae copi o bolisi yr Adran Addysg ar gael ym mhencadlys Yr Adran Addysg ac mae gwybodaeth ynghylch polisïau Cyrff Llywodraethol ar gael o'r ysgolion unigol.

**Arholiadau a Phrofion Cyhoeddus**

Y Llywodraethwyr yn unol â chyngor Penaethiaid ac mewn ymgynghoriad â rhieni, sy'n gyfrifol am roi enwau disgyblion i mewn i sefyll arholiadau allanol. Mae Llawlyfrau'r Ysgolion yn cynnwys rhestr o'r cyrsiau arholiad a gynigir a gwybodaeth ynghylch canlyniadau. Bydd gan y Llywodraethwyr bolisi ynghylch codi tâl am ail-sefyll arholiadau. Mae manylion pellach i'w cael gan benaethiaid.

**Pa gamau y gallaf eu cymryd os oes gennyf gŵyn?**

Os oes gennych gŵyn ynghylch addysg eich plentyn, yn y lle cyntaf, ceisiwch ddatrys y mater yn anffurfiol trwy drafod gyda staff yr ysgol y mae eich plentyn yn ei mynychu.

Os teimlwch nad yw eich cŵyn wedi ei datrys, gallwch gysylltu â'r Pennaeth gyda'ch cŵyn, ac efallai y gofynnir i chi gyflwyno'r gŵyn yn ysgrifenedig.

Os yn dilyn hynny, na chafodd y gŵyn ei datrys, gallwch gyfeirio eich cŵyn at bwyllgor cwynion y Corff Llywodraethol. Bydd yr ysgol y mae eich plentyn yn ei mynychu yn gallu rhoi manylion llawn i chi ynghylch y weithdrefn cwynion gyffredinol.

Os oes a wnelo eich cŵyn ag aelod o staff yr Awdurdod, gallwch droi at Weithdrefn Cwynion y Cyngor.

**Sut allaf dalu am wasanaethau mewn ysgolion cynradd?**

**Taliadau amrywiol**

Gellir talu am amryw o wasanaethau ysgolion cynradd megis cinio ysgol, tripiau, gwersi offerynnau, nofio ayb ar-lein. Ceir canllawiau drwy ddilyn **www.gwynedd.llyw.cymru/talueichysgol**

**Clwb Gofal Cyn-Ysgol / Brecwast am Ddim**

Dim ond rhai ysgolion cynradd y Sir sy'n cynnal clybiau gofal cyn-ysgol a chlybiau brecwast am ddim. Cysylltwch â'ch ysgol i gael gwybod mwy am eich ysgol chi.

Codir ffi am yr elfen gofal plant cyn y clwb brecwast am ddim. Rhaid archebu lle yn y clwb trwy ddilyn **www.gwynedd.llyw.cymru/fynghyfrif**

## 8. GWYLIAU YSGOL - 2024-2025

**TYMOR:**

| | |
|---|---|
| Hydref 2024 | 2 Medi 2024 - 20 Rhagfyr 2024 |
| Gwanwyn 2025 | 6 Ionawr 2025 - 11 Mawrth 2025 |
| Haf 2025 | 28 Ebrill 2025 - 21 Gorffennaf 2025 |

Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Llun, 3 Medi, 2024.

**GWYLIAU:**

| | |
|---|---|
| 28 Hydref - 1 Tachwedd 2024 | (Hanner-Tymor) |
| 23 Rhagfyr 2024 - 3 Ionawr 2025 | (Gwyliau'r Nadolig) |
| 24 - 28 Chwefror 2025 | (Hanner-Tymor) |
| 14 - 25 Ebrill 2025 | (Gwyliau'r Pasg) |
| 5 Mai 2025 | (Calan Mai) |
| 26 - 30 Mai 2025 | (Hanner-Tymor) |
| 22 Gorffennaf - 29 Awst 2025 | (Gwyliau'r Haf) |

Bydd yr ysgolion yn ail-agor ddydd Llun, 1 Medi, 2025 i athrawon, a dydd Mawrth, 2 Medi i ddisgyblion (i'w gadarnhau).

Mae 4 diwrnod hyfforddiant arall i'w cymryd gan bob ysgol. Cysylltwch â'ch ysgol leol am wybodaeth.

**Ysgolion Gwynedd**

Ar adeg argraffu'r ddogfen hon ceir 79 o ysgolion cynradd, 12 ysgol uwchradd, 2 ysgol ganol a 2 ysgol arbennig yng Ngwynedd a chânt eu rhestru isod.

Cafodd pob un ohonynt eu trefnu yn ôl dalgylch ysgol uwchradd. Mae'r Adran Addysg o'r farn bod parhad mewn addysg o'r cyfnod cynradd i'r uwchradd yn hollbwysig ac y dylai rhieni fod yn ymwybodol o'r berthynas hon ac felly cafodd pob ysgol uwchradd eu rhestru gyda'u hysgolion cynradd sy'n eu cyflenwi.

Mae pob ysgol yn ysgolion dydd cydaddysgol. Mae'r holl ysgolion uwchradd yn ysgolion cymuned ar gyfer disgyblion 11 - 18 oed ar wahân i ardal Meirionnydd/Dwyfor ble mae'r ysgolion uwchradd yn ysgolion cymuned 11-16 gyda'r ddarpariaeth ôl-16 yng Ngholeg Meirion/Dwyfor (ac eithrio Ysgol Godre'r Berwyn).

Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion cynradd hefyd yn ysgolion cymuned ond mae nifer fechan o ysgolion a chyswllt â'r Eglwys yng Nghymru neu'r Eglwys Gatholig. Mae rhai ohonynt yn ysgolion gwirfoddol dan reolaeth, ac mae nifer llai yn ysgolion gwirfoddol dan gymorth.

Mae'r rhestr yn dynodi statws pob ysgol.